CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

# Atodlenni Dirprwyo Awdurdod (Pwerau Dirprwyedig) (cymeradwywyd gan y Cyngor, Mawrth 2025)

## A. Pwerau a Ddirprwyir i'r Llywydd

A.1 Y pŵer i gymeradwyo datganiadau polisi a datganiadau sefyllfa a datganiadau cyhoeddus eraill ar ran y Gymdeithas, a'u cyhoeddi fel bo'n briodol.

A.2 Yn amodol ar ddarpariaethau'r Siarter Frenhinol a'r is-ddeddfau, cychwyn trafodaethau a negodi ag unigolion, sefydliadau, cyrff neu gymdeithasau eraill i hyrwyddo amcanion y Gymdeithas.

## B. Pwerau a Ddirprwyir i'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol

Yn amodol ar (a) gynnwys yng Nghofnodion cyfarfod(ydd) perthnasol y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol gofnod o'r holl gamau a gymerwyd gan y Pwyllgor o dan y pwerau dirprwyedig canlynol, (b) darpariaethau'r Siarter Frenhinol a'r is-ddeddfau, (c) ystyriaeth o oblygiadau ariannol penderfyniadau, ac (ch) bod cyllideb ddigonol o fewn Amcangyfrifon Incwm a Gwariant cymeradwy'r Gymdeithas i dalu unrhyw gostau a ragwelir:

B.1 Y pŵer i gymeradwyo cynigion sy'n ymwneud â Rhaglen Ddigwyddiadau'r Gymdeithas.

B.2 Y pŵer i gymeradwyo cynigion sy'n ymwneud â chyhoeddiadau'r Gymdeithas.

B.3 Y pŵer i gymeradwyo cwblhau cytundebau â phersonau, sefydliadau, cyrff neu gymdeithasau eraill, a thelerau unrhyw gytundebau o'r fath.

B.4 Y pŵer i sefydlu a dyfarnu Gwobrau, yn unol â Strategaeth a chyllideb y Gymdeithas.

B.5 Y pŵer i gymeradwyo cynigion sy'n ymwneud â medalau'r Gymdeithas.

B.6 Y pŵer i gymeradwyo cynigion sy'n ymwneud â'r Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar.

B.7Y pŵer i ddirprwyo ymhellach, ar y telerau a'r amodau hynny y gall y Pwyllgor eu pennu, i'r Swyddogion Anrhydeddus (y Llywydd, yr Is-Lywyddion, y Trysorydd a'r Ysgrifennydd Cyffredinol), unrhyw un o'r pwerau hynny a ddirprwyir i'r Pwyllgor ymhellach i (B.1), (B.2), (B3) a (B.4), uchod.

## C. Pwerau a Ddirprwyir i'r Pwyllgor Cyllid

Yn amodol ar gynnwys yng Nghofnodion cyfarfod(ydd) perthnasol y Pwyllgor Cyllid gofnod o'r holl gamau a gymerwyd gan y Pwyllgor o dan y pwerau dirprwyedig canlynol:

C.1 Yn amodol ar gadw at derfynau gwariant cyffredinol fel y'u cymeradwywyd gan y Cyngor, y pŵer i gymeradwyo trosglwyddo gwariant rhwng penawdau cyllideb o fewn yr Amcangyfrifon Incwm a Gwariant cymeradwy.

C.2 Y pŵer i bennu, mynnu, codi a derbyn ffioedd (ac eithrio Tanysgrifiadau a Ffioedd Derbyn Cymrodyr ac Aelodau eraill) mewn perthynas ag unrhyw un o weithgareddau'r Gymdeithas.

C.3 Y pŵer i dderbyn rhoddion, cymynroddion ac anrhegion eraill ar ran y Gymdeithas a phenderfynu sut y cânt eu gwario/eu buddsoddi.

C.4 Yn amodol ar ystyried goblygiadau ariannol penderfyniadau ac ar yr amod bod cyllideb ddigonol o fewn Amcangyfrifon Incwm a Gwariant cymeradwy'r Gymdeithas i dalu unrhyw gostau disgwyliedig, y pŵer i gymeradwyo polisïau sy'n ymwneud â phenodi, arfarnu, graddio, cyflog ac amodau staff.

C.5 Y pŵer i gymeradwyo trefniadau mewn cysylltiad â chyfrif(on) banc, yswiriannau a buddsoddiadau'r Gymdeithas.

C.6 Y pŵer i gymeradwyo gwariant ychwanegol ar eitemau newydd nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gyllideb bresennol, neu i ailddyrannu gwariant rhwng penawdau cyllideb. Mewn unrhyw flwyddyn ariannol, ni ddylai effaith net penderfyniadau o'r fath fod yn fwy na £10,000 o wariant ychwanegol ar draws y gyllideb gyfan.

C.7 Y pŵer i ddirprwyo ymhellach, ar y telerau a'r amodau hynny y gall y Pwyllgor eu pennu, i'r Swyddogion Anrhydeddus (y Llywydd, yr Is-Lywyddion, y Trysorydd a'r Ysgrifennydd Cyffredinol), unrhyw un o'r pwerau hynny a ddirprwyir i'r Pwyllgor ymhellach i (C.1), (C.2), (C.3) ac (C.4), uchod.

**CH. Pwerau a ddirprwyir i Bwyllgor y Gymrodoriaeth:**

CH.1 Y pŵer i gymeradwyo a gweithredu amserlen ar gyfer enwebiadau ac etholiadau'r Gymrodoriaeth bob blwyddyn, yn amodol ar gydymffurfio â rheoliadau perthnasol y Gymdeithas ac amserlen cyfarfodydd y Cyngor.

CH.2 Y pŵer i ddiwygio'r ffurflenni enwebu a'r canllawiau a roddir i gynigwyr/enwebeion, ar yr amod bod y Cyngor yn cymeradwyo unrhyw newidiadau i'r meini prawf/meincnodau ethol.

CH.3 Y pŵer i lunio'r agenda a'r cynnwys ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu, er mwyn sicrhau prosesau cyson.

CH.4 Y pŵer i gytuno ar y broses a ddefnyddir i roi adborth i enwebeion aflwyddiannus.

CH.5 Y pŵer i gymeradwyo aelodaeth a strwythur Pwyllgorau Craffu, gan gynnwys penodi Cadeiryddion ac aelodau, penodi Aelodau Annibynnol, a chyfethol aelodau ychwanegol os oes angen.

CH.6 Y pŵer i gynghori'r Is-lywyddion os oes angen cymrodeddu mewn cysylltiad â gwaith y Pwyllgorau Craffu.

**D. Pwerau a Ddirprwyir i'r Pwyllgor Adnoddau Dynol**

Yn amodol ar gynnwys yng Nghofnodion cyfarfod(ydd) perthnasol y Pwyllgor Adnoddau Dynol gofnod o'r holl gamau a gymerwyd gan y Pwyllgor o dan y pwerau dirprwyedig canlynol:

D.1 Y pŵer i gymeradwyo polisïau sy'n ymwneud â disgyblu, gwahardd a diswyddo staff y Gymdeithas.

**DD. Pwerau a Ddirprwyir i'r Swyddogion Anrhydeddus** (y Llywydd, yr Is-lywyddion, y Trysorydd a'r Ysgrifennydd Cyffredinol), gan weithredu ar y cyd ac, yn ôl yr angen, a thrwy benderfyniad y mwyafrif.

Yn amodol ar gyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Cyngor (ac, fel y bo'n briodol, i gyfarfod(ydd) nesaf y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol ac/neu'r Pwyllgor Cyllid) ar yr holl gamau a gymerwyd gan y Swyddogion o dan y pwerau dirprwyedig canlynol:

DD.1 Y pŵer i gymeradwyo gwariant ychwanegol, hyd at derfyn o £5,000, ar unrhyw eitem nad oes cyllideb ddigonol eisoes yn bodoli ar ei chyfer o fewn yr Amcangyfrifon Incwm a Gwariant cymeradwy.

DD.2 Y pŵer i gymeradwyo gwelliannau i weithdrefnau cymeradwy ar gyfer enwebu ac ethol Cymrodyr a Chymrodyr er Anrhydedd.

DD.3 Y pŵer i gymeradwyo cynigion, bidiau a cheisiadau am grantiau a chyllid arall a'u cyflwyno i sefydliadau eraill.

DD.4 Y pŵer i ddirprwyo i Bwyllgor Gwaith (y mae ei aelodau'n cynnwys Swyddogion, y Prif Weithredwr a'r Clerc) y gwaith o gynnal busnes y Gymdeithas er mwyn sicrhau rheolaeth effeithiol ar fusnes dyddiol y gymdeithas.

DD.5 Y pŵer i ddirprwyo ymhellach, ar y telerau a'r amodau hynny y gall y Swyddogion Anrhydeddus eu pennu, i'r Prif Weithredwr a'r Clerc y pwerau hynny y gall y Pwyllgor Cyllid fod wedi'u dirprwyo i'r Swyddogion mewn perthynas ag (a) hawlio, codi tâl a derbyn ffioedd mewn perthynas â gweithgareddau'r Gymdeithas; a (b) derbyn rhoddion, cymynroddion ac anrhegion eraill ar ran y Gymdeithas.

**E. Pwerau a Ddirprwyir i'r Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd (Y Clerc)**

E.1 Y pŵer i gymeradwyo gwariant o fewn pob llinell o gyllideb flynyddol y Gymdeithas.

E.2 Y pŵer i ailddyrannu gwariant rhwng penawdau cyllideb, hyd at uchafswm o £10,000 y chwarter, ar yr amod nad yw hyn yn cynyddu gwariant net y Gymdeithas

E.3 Y pŵer i gymeradwyo gwariant ychwanegol, hyd at uchafswm o £1,000 fesul chwarter, ar unrhyw eitem (gan gynnwys cyflogi staff achlysurol) nad oes cyllideb ddigonol ar ei chyfer eisoes o fewn y gyllideb gymeradwy. Rhaid adrodd am benderfyniad o'r fath i'r Pwyllgor Cyllid yn ei gyfarfod nesaf a bydd yn cyfrif fel rhan o bŵer cyffredinol y Pwyllgor i wario £10,000 yn fwy bob blwyddyn na'r gwariant net a gyllidebwyd. Yn dibynnu ar sefyllfa'r gyllideb, efallai y bydd y Pwyllgor yn gofyn i'r Prif Weithredwr beidio defnyddio'r pŵer hwn yn y chwarter dilynol.

E.4 Fel y bo'n berthnasol, y pŵer i gynorthwyo'r Pwyllgor Goruchwylio Llywodraethu â'r canlynol:

i. Pwyllgor Penodi Llywydd
ii. Adolygu swyddi gwag ar bwyllgorau llywodraethu.
iii. Ystyriaeth o'r weithdrefn ar gyfer penodi'r Prif Weithredwr.

E.5 Ochr yn ochr â'r Trysorydd a'r Ysgrifennydd Cyffredinol, y pŵer i'r Prif Weithredwr weithredu fel Cyfarwyddwr, ac i'r Clerc weithredu fel Ysgrifennydd yn Nhŷ'r Cwmnïau.

E.6 Ochr yn ochr â'r Trysorydd a'r Ysgrifennydd Cyffredinol, y pŵer i'r Prif Weithredwr weithredu fel defnyddiwr a llofnodwr ar gyfer cyfrifon banc y Gymdeithas, ac i'r Clerc ddarparu cefnogaeth ysgrifenyddol.

## F. Pwerau a Ddirprwyir i'r Pwyllgor Goruchwylio Llywodraethu

Yn amodol ar gynnwys yng Nghofnodion cyfarfod(ydd) perthnasol y Pwyllgor Goruchwylio Llywodraethu gofnod o'r holl gamau a gymerwyd gan y Pwyllgor o dan y pwerau dirprwyedig canlynol:

F.1 Y pŵer i gymeradwyo galwadau i mewn ar gyfer aelodau'r Cyngor a'r Pwyllgorau.